

Strategaeth Gorfforaethol 2013 – 2015

Hyder
y cyhoedd
mewn
rheoleiddio
deintyddol

Cynnwys

- 01 Rhagarweiniad
- 02 Ynghylch y strategaeth hon
- 04 Cyfleoedd yn y dyfodol
- 06 Amcanion Strategol

Ein rôl yw gwarchod y cyhoedd trwy reoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol. Byddwn yn gwneud hyn trwy:

- Gofrestru gweithwyr deintyddol proffesiynol cymwysedig
- Gosod a gorfodi safonau ymarfer deintyddol ac ymddygiad
- Gwarchod y cyhoedd rhag arferion anghyfreithlon
- Sicrhau ansawdd addysg ddeintyddol
- Sicrhau bod staff proffesiynol yn diweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau
- Ymchwilio a gweithredu ar gwynion a dderbynnir am addasrwydd i ymarfer
- Cynorthwyo cleifion a'r proffesiwn i ddatrys cwynion am ddeintyddiaeth breifat, trwy'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol

Mae rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yn effeithiol yn gwella diogelwch cleifion, mae'n gwella ansawdd gofal deintyddol a chynorthwyo i sicrhau hyder y cyhoedd mewn rheoleiddio deintyddol.

Ein nod yw rheoleiddio mewn ffordd sy'n gymesur, atebol, eglur, gyson, wedi'i thargedu, ac yn ymatebol i ofynion, risgiau a blaenoriaethau sy'n newid.

Rydym wedi ymrwymo i ostwng costau trwy fesurau effeithlon-rwydd na fyddant yn golygu cyfaddawdu o ran ein prif bwrpas, sef parhau i warchod cleifion.

Ynghylch y strategaeth hon

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strategaeth dair blynedd i gyflwyno rheoleiddio i'r proffesiwn deintyddol sydd er budd cleifion a'r cyhoedd.

Ymhlith y cynulleidfaoedd ar gyfer y strategaeth gorfforaethol hon y mae: cleifion a'r cyhoedd; gweithwyr deintyddol proffesiynol; rheoleiddwyr eraill yn y sector gofal iechyd; seneddwyr; y cyfryngau; cymdeithasau proffesiynol a grwpiau ymgyrchu.

Wrth wraidd y strategaeth y mae cynllun busnes manwl a chyllideb ar gyfer 2013 sy'n amlinellu gweithgareddau penodol a'u costau. Gallwch weld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar ein gwefan: www.gdc-uk.org



Cyfleoedd yn y dyfodol

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r GDC wedi canolbwyntio ar welliant parhaus ac mae'r ymdriniaeth hon bellach wedi hen ymsefydlu.

Mae rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y Deyrnas Unedig yn mynd trwy newid o bwys ac mae disgwyladau'r Llywodraeth am reoleiddio, a amlinellir yn 'Enabling Excellence: Autonomy and Accountability for Health and Social Care Staff', ac sy'n berthnasol i reoleiddio deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae'r GDC yn gweithredu.

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n codi yn sgil y newidiadau i wella ein perfformiad. Hefyd, yn ddiweddar mae Comisiynau'r Gyfraith wedi ymgynghori ar set o gynigion a fydd, o'u cyflawni, yn rhoi cyfleoedd sylweddol i'r GDC ddod yn fwy ymatebol ac atebol i gleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

Mwy o graffu ar y ffordd rydym yn cyflawni ein pwrpas statudol

Mae holl reoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y Deyrnas Unedig yn destun craffu parhaus gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA, yn flaenorol y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd), sy'n cynnal adolygiad blynyddol ar ein perfformiad. Byddwn hefyd yn adrodd yn flynyddol i seneddau a chynulladau'r pedair gwlad. Yn ogystal, bydd craffu gan gyrff defnyddwyr, megis Which, a chyrrff sydd â chyfrifoldeb statudol, megis y Swyddfa Masnachu Teg. Rydym yn croesawu'r ffaith fod grwpiau buddiant a'r cyhoedd yn cael rhagor o gyfleoedd i gyfleu eu pryderon am faterion ynghylch rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol ac rydym yn benderfynol o ymdrin â'r pryderon hynny.

Mwy o ymreolaeth a llywodraethu ein gwaith yn fwy effeithiol

Er y bydd mwy o graffu arnom, fe gynigir⁽¹⁾ hefyd y dylem ni, ynghyd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, gael mwy o ymreolaeth i lunio rheolau er mwyn cyflwyno ein swyddogaethau statudol. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb yn uniongyrchol i bryderon am warchod y cyhoedd. Wrth baratoi ar gyfer newidiadau rheoleiddiol, rydym wedi adolygu ein trefniadau llywodraethu yn ddiweddar gan sicrhau bod ein proses o wneud penderfyniadau mor gyflym ac effeithiol â phosib.

Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i benodi Cyngor newydd, llai yn 2013, gyda 12 aelod, sef chwech o bobl leyg a chwech o weithwyr deintyddol proffesiynol. O ganlyniad, rydym yn adolygu'r ffyrdd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau bod Cyngor a phwyllgorau newydd y GDC yn perfformio'n dda mewn partneriaeth â staff y GDC. Byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau pellach i gyfansoddiad ein Cyngor, yn 2016, a allai ddod o ganlyniad i gynigion Comisiynau'r Gyfraith.

Cydweithredu â rheoleiddwyr eraill i gyflwyno rheoleiddio cyffyrddiad cywir

Byddwn yn parhau i wella ein perfformiad trwy fabwysiadu egwyddorion 'cyffyrddiad cywir', a sicrhau, pan fyddwn yn gweithredu, fod hynny'n gymesur â lefel y risg. Byddwn hefyd yn dod o hyd i well ffyrdd o gydweithio â rheoleiddwyr eraill gan gynnwys: y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Regulatory and Quality Improvement Authority yng Ngogledd Iwerddon, Arolygiaeth Iechyd Cymru a Healthcare Improvement Scotland. Byddwn hefyd mewn cysylltiad agos â chomisiynwyr y GIG a chyflogwyr.

Byddwn yn sicrhau bod y GDC yn rhoi ystyriaeth i'r gwahanol ymdriniaethau a geir â pholisi gofal iechyd yn Lloegr, yr Alban, Cymru, a Gogledd Iwerddon yn ogystal â datblygiadau deddfwriaethol Ewropeaidd. At ei gilydd, ein bwriad yw sicrhau bod ein profiad helaeth o reoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu polisiau a deddfwriaeth newydd a fydd yn adlewyrchu buddiannau cleifion a gwarchod y cyhoedd.

Tueddiadau economaidd, cymdeithasol, demograffig a thechnolegol

Wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu ein strategaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth i dueddiadau yn yr amgylchedd gofal iechyd a sut maent yn effeithio ar yr hyn a wnawn. Mae yna newidiadau cymdeithasol a demograffig ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig sy'n debyg o effeithio ar ein gwaith. Ymhlith y newidiadau hyn y mae cleifion sydd â mwy o wybodaeth ac sy'n fwy hyderus, a phoblogaeth sy'n heneiddio, gan arwain at fwy o bwyslais ar ofal ataliol.

Mae darpariaeth triniaeth ddeintyddol yn Lloegr hefyd yn debyg o newid o ganlyniad i ad-drefnu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r posibilrwydd y gallai cleifion, ym mhob un o'r pedair gwlad, gael 'mynediad uniongyrchol' at aelodau o'r tîm deintyddol (megis hylenyddion deintyddol) heb fod angen eu cyfeirio gan ddeintydd. Bydd y twf mewn gwasanaethau corfforaethol a gwasanaethau stydfawr gan gyrff deintyddol yn golygu y bydd ein gwasanaethau i ddefnyddwyr yn ehangu. Bydd y twf posib mewn ysgolion deintyddiaeth preifat yn arwain at ehangu ein rôl bresennol o ran sicrhau ansawdd addysg ddeintyddol.

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau posib o ddatblygiadau technolegol, megis gwasanaethau ar lein, i wella'r ffordd y cyflwynir rheoleiddio. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio data perfformiad i fonitro pa mor dda rydym yn cyflawni ein dyletswyddau fel rheoleiddiwr.

⁽¹⁾Mae'r Llywodraeth Glymblaid wedi comisiynu adolygiad symleiddio ar y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio proffesiynol, gan anelu at roi mwy o ymreolaeth i'r cyrrff rheoleiddiol i benderfynu ar y ffordd orau o gwrrdd â'u dyletswyddau statudol. Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i Gomisiynau'r Gyfraith ymgymryd ag adolygiad symleiddio ar y fframwaith deddfwriaethol presennol a datblygu Mesur drafft ar gyfer ymgynghoriad.


Amcanion Strategol

1.0

Dadansoddi ac ymateb yn effeithiol i anghenion cleifion a disgwyliadau'r cyhoedd i gynnal hyder y cyhoedd mewn rheoleiddio deintyddol.

Mae gwarchod cleifion yn ganolog i'r hyn a wnawn. Er mwyn cyflwyno rheoleiddio effeithiol i gleifion, rhaid i ni ddeall eu hanghenion a'u disgwyliadau yn llwyr. Rydym wedi cynnal ein harolwg blynyddol cyntaf ar gleifion a bydd casgliadau hyn ac arolygon blynyddol eraill yn cyfrannu gwybodaeth a fydd yn datblygu ein polisiau.

Strategaeth	Canlyniad
1.1 Gwella ein strategaeth ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd yng ngoleuni adborth	Mae safbwynt cleifion a'r cyhoedd yn cyfrannu gwybodaeth at ddatblygu ein polisiau
1.2 Nodi a gweithredu sianeli cyfathrebu newydd	Mae gennym well gwybodaeth am anghenion cleifion mewn perthynas â rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol
1.3 Cynnal ein gwaith mewn ffordd fwy eglur	Mae'r cyhoedd yn cael mynediad at y wybodaeth ofynnol
1.4 Adolygu rôl y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol	Mae'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol yn cwrdd ag anghenion a disgwyliadau cleifion sy'n pryderu am ofal deintyddol preifat



2.0

Rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol mewn ffordd gymesur ac wedi'i thargedu er mwyn gwarchod y cyhoedd yn well a galluogi'r cyhoedd i fod â hyder mewn rheoleiddio deintyddol.

Dyma brif bwrpas a chanolbwynt ein gwaith ac rydym wedi dechrau ar gyfres helaeth o ddiwygiadau i'n prosesau addasrwydd i ymarfer. Mae diwygiadau eisoes ar waith, yn enwedig y rhai sy'n anelu at gyflymu'r achosion mwyaf difrifol a datrys achosion llai difrifol ar y cyfle cyntaf ac rydym wedi gweithredu system rheoli achosion newydd trwy dechnoleg gwybodaeth. Mae'r diwygiadau hyn yn hanfodol ar adeg pan yw nifer y cwynion yn parhau i godi. Byddwn yn gwella mwy ar y ffordd rydym yn rheoli achosion addasrwydd i ymarfer trwy gyflwyno rhagor o newidiadau trefniadol sylfaenol sy'n galw am newidiadau i'n deddfwriaeth.

Rydym hefyd yn diwygio ein cynllun datblygiad proffesiynol parhaus sy'n mynnu bod pob gweithiwr deintyddol proffesiynol yn diweddar ei wybodaeth a'i sgiliau. Maes o law, fe ychwanegir at hyn gyda system aiddilysu ar gyfer deintyddion a fydd yn mynnu eu bod yn arddangos eu bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer.

Hefyd, rydym yn gwella ein trefniadau cofrestru er mwyn gwarchod rhag bod pobl yn mynd ar y gofrestr yn dwyllodrus a sicrhau bod pob ymgeisydd, ble bynnag y mae'n cymhwyso, yn meddu ar y gofynion angenrheidiol i sicrhau bod deintyddiaeth yn cael ei harfer yn ddiogel.

Strategaeth	Canlyniad
2.1 Gweithredu diwygiadau addasrwydd i ymarfer sy'n gwarchod cleifion yn well	Mae achosion addasrwydd i ymarfer yn bwrw yn eu blaenau yn brydlon, nifer gyfyngedig o heriau cyfreithiol sydd yna i'r penderfyniadau, mae pobl sy'n cwyno yn fodlon gyda'r gwasanaeth a gânt ac rydym yn tynnu'r bobl nad ydynt yn addas i ymarfer oddi ar y gofrestr neu'n gosod cosbau priodol eraill
2.2 Gweithredu cofrestru ar lein ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol	Mae cofrestru ar lein yn arwain at wasanaeth mwy cost effeithiol, diogel a chyfeillgar i gwsmeriaid
2.3 Gweithredu a chyfathrebu'n effeithiol y safonau proffesiynol newydd	Mae'r Safonau newydd yn sicrhau bod cleifion yn cael gofal o ansawdd uchel ac maent yn egluro wrth y cyhoedd a chleifion yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y rhai sydd wedi cofrestru
2.4 Adolygu a gweithredu polisiau a chanllawiau cwmpas ymarfer a mynediad uniongyrchol	Mae rolau gweithwyr deintyddol proffesiynol yn cael eu hegluro ac mae cleifion, cyflogwyr a'r rhai sydd wedi cofrestru yn llwyr ddeall rhychwant ymarfer y gweithwyr deintyddol proffesiynol hynny
2.5 Cwblhau datblygiad a threialu system aiddilysu wedi'i hanelu at sicrhau bod deintyddion yn parhau'n addas i ymarfer	Mae'r cynllun aiddilysu wedi'i dreialu a gwneir unrhyw welliannau pellach wrth baratoi ar gyfer gweithredu'n llawn
2.6 Estyn ein rhaglen ymgynghori ac ymchwilio i roi tystiolaeth ar gyfer datblygu polisiau a rheoleiddio ar sail risg	Mae'r rhaglenni ymgynghori ac ymchwilio wedi'u targedu at y grwpiau cywir ac fe'u defnyddir i hysbysu datblygu polisiau a gwneud penderfyniadau




3.0

Sicrhau bod pobl newydd sy'n dod i'r proffesiwn yn ddiogel i ymarfer trwy gyfrwng dull cynyddol integredig o reoleiddio addysg a hyfforddiant deintyddol.

Rydym yn benderfynol bod ein systemau sicrhau ansawdd ar gyfer addysg a hyfforddiant yn gweithio i sicrhau bod pob gweithiwr deintyddol proffesiynol yn ddiogel i ymarfer o'r eiliad y bydd yn ymuno â'r gofrestr a'i fod yn cynnal hyn gydol ei yrfa.

Rydym yn gweithredu system sicrhau ansawdd newydd ar gyfer darparwyr addysg er mwyn ceisio sicrhau bod y rhai sy'n dod i'r proffesiwn o'r newydd wedi'u harfogi'n well i weithredu'n ddiogel mewn ymarfer deintyddol.

Strategaeth	Canlyniad
3.1 Sicrhau bod y rhai sy'n dod i'r proffesiwn o'r newydd yn ddiogel a chymwys i weithredu o safbwynt ein safonau addysgol a phroffesiynol	Mae'r safonau addysgol a phroffesiynol yn sicrhau bod graddedigion deintyddol yn barod i ymuno â'r gofrestr a'u bod yn gymwys i ymarfer
3.2 Arolygu sefydliadau addysg a hyfforddiant i roi sicrwydd eu bod yn cyflwyno'r safonau addysgol a fydd yn sicrhau bod graddedigion deintyddol yn addas i gael eu cofrestru	Mae'r safonau addysgol yn cael eu gweithredu'n llawn a bydd yr holl ddarparwyr addysg yn glynu atynt ac ni fyddwn ond yn cydnabod y sefydliadau addysg hynny sy'n cyflawni'r safonau hyn yn ddigonol
3.3 Gwerthuso teilyngdod cyflwyno 'hyfforddiant cyn cofrestru' ar gyfer yr holl raddedigion deintyddol newydd	Mae'r holl raddedigion deintyddol newydd yn ddiogel a chymwys i ymarfer
3.4 Datblygu dulliau sicrhau ansawdd ar gyfer hyfforddiant arbenigol sy'n arwain at fynd ar y rhestrau arbenigwyr	Mae systemau sicrhau ansawdd newydd yn rhoi hyder mewn hyfforddiant arbenigol



4.0

Meithrin partneriaethau gyda chyrrff eraill a dylanwadu ar reoleiddio deintyddiaeth i warchod cleifion.

Mewn amgylchedd rheoleiddiol sy'n newid yn radical, mae'n hanfodol ein bod yn cryfhau ein perthynas â'r holl gyrrff perthnasol sy'n effeithio ar gyflawni ein swyddogaethau statudol. Byddwn yn ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â chynrychiolwyr etholedig ym mhob un o'r pedair gwlad er mwyn dylanwadu ar eu dealltwriaeth a'u canfyddiad o reoleiddio proffesiynol yn y sector deintyddol.

Mae gennym eisoes berthynas dda â chyrrff partner a rheoleiddwyr proffesiynol eraill a bellach rydym yn bwriadu gosod sail strategol i'r perthnasau hynny er mwyn gallu cyd-ddatblygu'r sector rheoleiddio gofal iechyd, y mae pawb ohonom yn gweithredu o'i fewn, er budd cleifion a'r cyhoedd.

Strategaeth	Canlyniad
4.1 Ymgysylltu â Chomisiynau'r Gyfraith a'r Adranau Iechyd er mwyn sicrhau newid effeithiol	Mae rheoleiddio'r sector deintyddol yn sicrhau bod cleifion yn cael eu gwarchod
4.2 Paratoi ar gyfer gweithredu diwygiadau y cytunwyd arnynt sy'n deillio o newid deddfwriaethol	Rydym yn barod i weithredu deddfwriaeth newydd cyn gynted ag y deddfir ar hynny
4.3 Ymateb a dylanwadu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n effeithio ar reoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol	Mae deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn adlewyrchu gofynion gwarchod cleifion, gan ganiatáu i bobl broffesiynol symud yn rhydd
4.4 Datblygu partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau cleifion	Mae sefydliadau cleifion yn cydnabod ein bod yn rhoi ystyriaeth i'w barn
4.5 Datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn effeithiol	Mae ein polisiau a'n systemau yn rhoi ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth wahanol a'r ffordd y cyflwynir gwasanaethau deintyddol ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnig yr un safon o warchodaeth i gleifion
4.6 Meithrin partneriaethau strategol gyda rheoleiddwyr systemau gofal iechyd a chyrrff rheoleiddio proffesiynol sydd er budd y cyhoedd a chleifion	Mae mwy o gydgyssylltu o fewn rheoleiddio gofal iechyd er budd y cyhoedd a chleifion
4.7 Cyfrannu ein harbenigedd, yn ôl yr angen, i sicrhau bod newidiadau wrth gyflwyno gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig yn rhoi ystyriaeth briodol i'r ffordd y mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn cael eu rheoleiddio	Ni fydd unrhyw newidiadau wrth gyflwyno gofal iechyd yn tansellio ein gallu i warchod cleifion yn well




5.0

Cyflwyno rheoleiddio cost effeithiol, gan sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf heb gollu gwarchodaeth i gleifion.

Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd ar gyfer arbed costau gan geisio osgoi neu leihau cynnydd pellach yn y ffi flynyddol. Mae'r diwygiadau i'n swyddogaethau addasrwydd i ymarfer a chofrestru wedi'u hanelu at warchod y cyhoedd yn well a chynyddu ein heffeithlonrwydd. Rydym hefyd yn symleiddio ein strwythurau llywodraethu gan geisio gwneud penderfyniadau ynghylch ein swyddogaethau yn gyflymach a gwell. Rydym yn gostwng costau trwy ddefnyddio mwy ar dechnoleg fodern.

Strategaeth	Canlyniad
5.1 Pennu'r ffi flynyddol ar y gyfradd ofynnol er mwyn gallu rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol	Bydd gennym gyllideb gytbwys dros dair blynedd, heb gyfaddawdu o ran gwarchod cleifion
5.2 Gostwng costau ein prosesau addasrwydd i ymarfer trwy newid trefniadol	Penderfyniadau cyflymach mewn achosion addasrwydd i ymarfer heb gollu tegwch i bobl sydd wedi cofrestru na chynnydd yn y risgiau i ddiogelwch cleifion
5.3 Gweithredu strwythurau llywodraethu newydd yn effeithiol, gan gynnwys lleihau maint y Cyngor	Mae strwythurau, systemau a phrosesau newydd wedi'u dylunio a'u gweithredu gan hwyluso gwaith Cyngor llai sy'n debycach i fwrdd, a reolir yn ofalus
5.4 Gwneud defnydd cynyddol ar wasanaethau ar lein	Costau is a gwasanaethau mwy hygrych i'r holl randdeiliaid
5.5 Datblygu a chyflwyno rhaglen waith gydweithredol gyda rheoleiddwyr eraill	Mae rhannu ymagweddau yn arwain at reoleiddio mwy cost effeithiol
5.6 Cynnal adolygiad o'r holl gaffael i sicrhau ein bod yn derbyn gwerth am arian	Costau is trwy ailtrafod contractau am wasanaethau a chynhyrchion




6.0

6. Rheoli'r GDC yn effeithiol a chefnogi ei staff i gyflawni ein hamcanion.

Yn y cyfnod hwn o ddiwygio strwythurol a deddfwriaethol mawr, bydd ar y sefydliad ei hun angen ymateb ac addasu mewn sawl ffordd; byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i reoli newid sefydliadol a chefnogi ein staff.

Strategaeth	Canlyniad
6.1 Gwella ein hymgysylltiad â staff mewn ymateb i adborth parhaus	Mae staff yn meddu ar ddulliau priodol o gymryd rhan a chyfrannu at reoli'r sefydliad
6.2 Sicrhau bod ein rhaglen datblygiad proffesiynol yn arfogi staff i ymateb i ofynion newidiol y sefydliad	Mae staff yn cael eu cefnogi yn eu haddysg a'u datblygiad i gwrdd â'u hamcanion
6.3 Adolygu'r strategaeth cydnabod a gwobrwyo a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol	Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo am y gwaith a wnânt ac mae lefelau dal gaffael ar staff yn uchel
6.4 Defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd sy'n cefnogi cynaliadwyedd ac adlewyrchu arferion gorau amgylcheddol	Rydym yn cwrdd â'r safonau cenedlaethol gorau
6.5 Parhau i ddatblygu a gweithredu ein strategaeth a'n cynllun gweithredu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth	Mae ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ategu pob maes yn ein gwaith ac rydym yn cydymffurfio â deddfwriaeth
6.6 Ailddatblygu safle pencadlys y GDC yn Llundain	Rydym yn darparu lle sy'n addas ar gyfer cyflwyno ein prif swyddogaethau, yn brydlon ac o fewn y gyllideb



Rydym eisiau sicrhau bod ein holl
wasanaethau ar gael i bawb.

Os hoffech gael copi o'r daflen hon ar ffurf
arall (er enghraifft, mewn print bras neu ar dâp sain)
neu mewn iaith heblaw Cymraeg, cysylltwch â ni.

Ffôn: 0845 222 4141
E-bost: information@gdc-uk.org

Cyngor Deintyddol Cyffredinol

37 Wimpole Street
Llundain W1G 8DQ

Ffôn: 0845 222 4141
Minicom: 18001 0845 222 4141 (trwy Typetalk)
E-bost: information@gdc-uk.org
www.gdc-uk.org

**General
Dental
Council**

protecting patients,
regulating the dental team